Ysgol Penrhyn-coch

Dyma ni'n ôl unwaith eto yr ysgol a'r tymor yma rhoddwn groeso i Mrs J.E.Pugh a apwyntiwyd yn gogyddes yr ysgol. Yn anffodus mae Mrs P.M.Evans yn sâl ac yn methu a dilyn ei gorchwylion canol dydd. Dymunwn adferiad buan iddi.

Yn ystod Gŵyl Aberystwyth bu'r plant yn Theatr y Werin yn gweld perfformiad yn ymwneud â Thwm o'r Nant gan Theatr Crwban. Ar y Dydd Llun bu rhai o'r dosbarth uchaf yn cymryd rhan yn y Lonc Lon a drefnwyd gan bwyllgor yr Ŵyl gyda'r pwrpas o godi arian i Ysbyty Bronglais. Rhaid llongyfarch un o'r rhieni hefyd, sef Mr Glyn Collins, am wneud ymdrech mor deg.

Bu'r plant sy'n gadael yng Ngorffennaf yn gweld perfformiad Ysgol Gyfun Penglais o "Oliver". Yr oedd y cyflwyniad a'r perfformiad o safon uchel iawn a hyfryd oedd gweld rhai o gyn-ddisgyblion yr ysgol yma'n cymryd rhan ac yn gwneud gwaith mor ganmoladwy.

Bu'r tîm rygbi'n chwarae yn y gystadleuaeth saith bob ochr yn Aberystwyth ac er mai chwaraewyr ieuainc iawn sydd gennym eleni gwnaethant waith arbennig o dda.

Nos Wener y 9fed o'r mis oedd noson agored yr ysgol pryd y cafodd y rhieni sgwrsio â'r athrawon a chael y cyfle i weld gwaith y plant. Hyfryd oedd gweld cynifer yn bresennol. Bu'r noson yn un hynod o lwyddiannus er iddi fod yn gyfrifol am fethiant ambell un i gyrraedd mewn pryd y Noson Goffi a'r Cyngerdd er budd y *Tincer* yn Neuadd Rhydypennau!